OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 613 (Cy.65)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Canllawiau ar LefelauTaliadau) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*6 Mawrth 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*10 Mawrth 2008*
Yn dod i rym - -	*31 Mawrth 2008*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraff 8 o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Traffig (Canllawiau ar Lefelau Taliadau) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 31 Mawrth 2008, ac mae'n gymwys i Gymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn: ystyr "y Rheoliadau Gorfodi a Dyfarnu" ("*the Enforcement and Adjudication Regulations*") yw Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Hysbysiadau Tâl Cosbau, Gorfodi a Dyfarnu) (Cymru) 2008(**3**).

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Rheoliadau Darpariaethau Cyffredinol" ("*the General Provisions Regulations*") yw Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2008(**4**).

Canllawiau

2. Y canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru, sef yr awdurdod cenedlaethol priodol ar gyfer Cymru o dan Ran 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 i awdurdodau gorfodi wrth osod lefelau taliadau ar gyfer tramgwyddau parcio yw'r rhai hynny a geir yn yr Atodlen.

(**1**) 2004 p.18
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).
(**3**) O.S. 2008/609.
(**4**) O.S. 2008/614 (Cy.66).

Ieuan Wyn Jones
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru

6 Mawrth 2008

YR ATODLEN Erthygl 2

CANLLAWIAU I AWDURDODAU GORFODI WRTH OSOD TALIADAU AM DRAMGWYDDAU PARCIO

Taliadau cosb

1.—(1) Rhaid gosod taliadau cosb ar gyfer tramgwyddau parcio—

(a) ar gyfer tramgwyddau lefel uwch, ar y lefel a bennir yng ngholofn (2) yn un o'r bandiau yn Nhabl 1; ac

(b) ar gyfer pob tramgwydd arall, ar y lefel a bennir yng ngholofn (3) yn y band yn Nhabl 1 a ddewisir ar gyfer lefelau uwch o dramgwyddo.

(2) Rhaid gosod y lefel disgownt ar gyfer taliad cosb a delir yn gynnar (hynny yw o fewn 21 o ddiwrnodau yn achos taliadau cosb a osodwyd ar sail cofnod a gynhyrchwyd gan ddyfais a gymeradwyir o dan reoliad 6(1)(a) o'r Rheoliadau Gorfodi a Dyfarnu a 14 o ddiwrnodau ym mhob achos arall)—

(a) ar gyfer tramgwyddau lefel uwch, ar y lefel a bennir yng ngholofn (4);

(b) ar gyfer pob tramgwydd arall, ar y lefel a bennir yng ngholofn (5),

yn y band sy'n pennu lefelau'r taliadau cosb.

(3) Rhaid gosod lefel gordal taliad o dâl cosb wedi i dystysgrif codi tâl gael ei dyroddi—

(a) ar gyfer tramgwyddau lefel uwch ar y lefel a bennir yng ngholofn (6);

(b) ar gyfer pob tramgwydd arall ar y lefel a bennir yng ngholofn (7),

yn y band sy'n pennu lefelau'r taliadau cosb.

Tabl 1

(1) *Band*	*(2)* *Tâl cosb lefel uwch*	*(3)* *Tâl cosb lefel is*	*(4)* *Tâl cosb lefel uwch a delir yn gynnar*	*(5)* *Tâl cosb lefel is a delir yn gynnar*	*(6)* *Tâl cosb lefel uwch a delir ar ôl cyflwyno tystysgrif codi tâl*	*(7)* *Tâl cosb lefel is a delir ar ôl cyflwyno tystysgrif codi tâl*
1.	£60	£40	£30	£20	£90	£60
2.	£70	£50	£35	£25	£105	£75

(4) Caiff awdurdod gorfodi osod taliadau cosb yn unol â gwahanol fandiau yn y tabl mewn gwahanol rannau o'i ardal, cyn belled â bod pob taliad ym mhob rhan o'i ardal yn cael ei osod yn unol â'r un band.

(5) "Tramgwyddau Lefel Uwch" yw'r rhai hynny a restrir yn yr Atodiad.

Taliadau am symud ymaith, storio a gwaredu cerbydau

2. Y rhai hynny a geir yn nhabl 2 yw'r taliadau y mae'n rhaid eu codi am symud ymaith, storio a gwaredu cerbydau a ganfyddir mewn ardal orfodi sifil.